

THOMAS, THOMAS HENRY ('Arlunydd Penygarn '; 1839 - 1915), arlunydd, etc.

Enw: Thomas Henry Thomas
Ffugenw: Arlunydd Penygarn
Dyddiad geni: 1839
Dyddiad marw: 1915
Rhiant: Mary Thomas (née David)
Rhiant: Thomas Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arlunydd, etc.
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth; Hanes a Diwylliant
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 31 Mawrth 1839 yng ngholeg y Bedyddwyr, Pontyp l, mab y [Parch. Thomas Thomas](#), prifathro'r coleg o 1836 hyd 1877, a'i wraig, Mary David, Caerdydd. Addysgwyd ef gartref gan ei dad ac mewn academi a gedwid ym Mryste gan Dr. Bompas cyn iddo fynd i'r Bristol School of Art ac oddi yno i Carey's Art School a'r Royal Academy Schools yn Llundain. Wedi hynny aeth i Baris, Rhufain, etc. Daeth i adnabod [John Gibson](#) a [Penry Williams](#) yn Rhufain.

Dychwelodd i Lundain yn 1861 gan ymsefydlu fel arlunydd - portreadu personau, darlunio llyfrau, etc. Bu'n gweithio hefyd dros y *Graphic* a'r *Daily Graphic*; yn 1884 aeth i Canada fel arlunydd arbennig y cyfnodolion hyn pan oedd y British Association yn cyfarfod yn y wlad honno.

Wedi i'w dad ymneilltuo o'i swydd ym Mhontyp l ac ymsefydlu yng Nghaerdydd, daeth T. H. Thomas yntau i'r dref yno, gan ymddiddori yn yr eisteddfod genedlaethol a helpu i sefydlu y Royal Cambrian Academy, ac mewn daeareg, archaeoleg, llêngwerin, y pethau 'japan' a gynyrchasiid ym Mhontyp l a Brynbuga, yr amgueddfa a'r llyfrgell yn ninas Caerdydd, etc.; rhydd y MSS. a nodir isod syniad am rai o'i ddi-ddordebau. Ef oedd un o'r rhai cyntaf i alw sylw at y llythrennau dechreuol cain yn llawysgrifau [John Jones](#) o Gellilyfdy. Bu farw 5 Gorffennaf 1915.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

J. Ballinger, [Thomas Henry Thomas. Born 1839 Died 1915](#) yn *Cardiff Naturalists' Society*, xlviii, 1915 - yn cynnwys manylion am rai o ysgrifau T.H.T. i'r *Cardiff Naturalists' Society*

NLW MSS 3122-7, 6358-60, 6995-7

Llawysgrifau Amgueddfa Werin Cymru: AWC llawysgrifau 688, 741, 2435/1-395, 2492/1-2, 2591/1-24, 2810 a 3617/1-132

Darllen Pellach

Christabel Hutchings, *The correspondence of Thomas Henry Thomas, 'Arlunydd Penygarn'* (South Wales Record Society 2012)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [96133820](#)

Wikidata: [Q18640419](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

